**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Drafft Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg
3 Tachwedd 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Drafft Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 (*"Y Rheoliadau Cydlynydd ADY"*) yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu i sicrhau bod gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (cydlynwyr ADY) gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi swyddogaethau cydlynwyr ADY mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (pa un bynnag sy'n berthnasol) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Nod y gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau Cydlynydd ADY yw sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael eu nodi'n gynnar a bod y plant a'r bobl ifanc hynny yn cael darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) briodol drwy gydlynu darpariaeth o'r fath yn effeithiol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Cod ADY, a gaiff ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2021, yn darparu'r canllaw cynhwysfawr angenrheidiol i gyrff cyhoeddus ar eu swyddogaethau statudol mewn perthynas ag ADY, gan gynnwys y rheini a amlinellir yn y Rheoliadau Cydlynydd ADY. Bydd pennod benodol yn y Cod ADY ar rôl y cydlynydd ADY yn nodi'n glir ei gyfrifoldeb yn y lleoliad addysg, ac yn esbonio'r gofynion rheoleiddiol ar gyrff llywodraethu a chydlynwyr ADY. Ymgynghorwyd ar fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, gan gynnwys pennod ar gydlynwyr ADY, yn 2019[1].

Cyn i'r Cod ADY ddod i rym, bydd y rolau statudol a amlinellir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (*"Deddf 2018")*, gan gynnwys rôl y cydlynydd ADY, yn cychwyn ym mis Ionawr 2021[2]. I gyd-fynd â hynny, caiff y Rheoliadau Cydlynydd ADY a'r canllawiau ar bob rôl statudol o dan y system ADY newydd eu cyhoeddi. Bydd y canllawiau yn cynnwys testun o'r rhannau o'r Cod ADY diwygiedig sy'n ymwneud â'r rolau hyn ac yn egluro eu cyfrifoldebau.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae adran 60 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion[3] a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod yn gyfrifol am gydlynu DDdY i ddisgyblion neu fyfyrwyr (pa un bynnag sy'n berthnasol) sydd ag ADY. Mae adran 60 (3) o'r Ddeddf yn nodi bod person a ddynodir o dan yr adran hon i'w alw'n gydlynydd ADY.

---

[1] https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft

[2] Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn 1) Gorchymyn 2020, sydd hefyd yn cychwyn y pwerau i wneud Rheoliadau Cydlynydd ADY

[3] Ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol feithrin a gynhelir, neu uned cyfeirio disgyblion

Mae adran 60(4)(a) o Ddeddf 2018 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr ADY gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau). Mae Deddf 2018 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, o dan adran 60(4)(b), i ragnodi swyddogaethau cydlynwyr ADY mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (pa un bynnag sy'n berthnasol) sydd ag ADY.

Yn unol ag adran 98 o Ddeddf 2018, rhaid gosod y Rheoliadau Cydlynydd ADY a'u cymeradwyo drwy weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach) – yn unol â'r drefn penderfyniad cadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bydd y rhaglen i drawsnewid y system ADY yn trawsnewid y gwahanol systemau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion, ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach, i greu un system i gefnogi dysgwyr 0 i 25 oed sydd ag ADY. Wrth galon yr agenda ddiwygio hon mae Deddf 2018, sy'n creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r broses o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol, drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn nodi anghenion yn gynnar, gan sefydlu cymorth a phrosesau monitro effeithiol, ac addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu diben. Daw Deddf 2018 i rym fesul tipyn o fis Medi 2021.

O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n ymwneud ag AAA, nid oes rôl statudol ar gyfer cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA). Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn darparu ar gyfer rolau o'r fath.

Un o amcanion yr elfen o'r Rhaglen i Drawsnewid y System ADY sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu yw codi safonau'r gweithlu addysg sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY. Diben y Rheoliadau Cydlynydd ADY yw sicrhau bod yna weithlu digon medrus i weithredu fframwaith deddfwriaethol ADY a chyfrannu at amcanion cyffredinol y diwygiadau i'r system ADY, yn benodol:

- sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyflawni ei botensial;

- gwella'r broses o gynllunio a darparu cymorth i ddysgwyr 0 i 25 oed sydd ag ADY, gan roi'r lle canolog i anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr; a

- chanolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a sefydlu ymyriadau amserol ac effeithiol a gaiff eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu diben.

Bydd y Rheoliadau Cydlynydd ADY, a rhagnodi cymwysterau i fod yn gydlynydd ADY ynghyd â phennu'r tasgau i'w cyflawni, yn help i sicrhau cysondeb mewn perthynas â'r rôl statudol hon ledled Cymru, ac yn help i wella'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc sydd ag ADY.

Bydd tasgau Cydlynydd ADY a nodir yn Rheoliadau Cydlynydd ADY yn dod i rym cyn i brif ddarpariaethau gweithredol Deddf 2018 gael eu gweithredu. Fodd bynnag, gellir cyflawni'r tasgau, i raddau, cyn hynny er mwyn darparu parodrwydd ar gyfer dechrau'r system ADY. Mae'r tasgau yn y Rheoliadau Cydlynydd ADY hefyd yn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n ymwneud â phenodi i rolau Cydlynydd ADY beth fydd y rôl yn ei olygu.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 5. Yr opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i ddatblygu i ystyried goblygiadau rheoleiddiol gosod gofynion gorfodol ar gyrff llywodraethu mewn perthynas â dynodi cydlynwyr ADY a'r tasgau y mae'n rhaid iddynt ymgymryd â nhw. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar awdurdodau lleol.

O fis Ionawr 2021, daw'r rolau statudol a amlinellir yn Ddeddf 2018 i rym, sy'n cynnwys rôl statudol cydlynydd ADY. Mae adran 60(4) o Ddeddf 2018 yn nodi y caiff Rheoliadau:

(a) ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau);

(b) rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (pa un bynnag sy'n berthnasol) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud rheoliadau i'r dibenion hyn, ac yn unol â hynny mae wedi ymgynghori ar y fersiynau drafft. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adolygu'r cynigion ynghylch p'un a ddylid rhoi'r Rheoliadau Cydlynydd ADY ar waith.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adolygu dau opsiwn. Gan fod Deddf 2018 eisoes yn gosod gofyniad ar gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru i ddynodi person (neu fwy nag un person) yn gydlynydd ADY, nid oes opsiwn 'Gwneud dim byd'.

1) *"Gweithredu ar lefel sylfaenol – gweithredu heb ddeddfwriaeth"* – Byddai'r opsiwn hwn yn golygu peidio â bwrw ymlaen â'r Rheoliadau Cydlynydd ADY ac na fyddai gofynion ar gyrff llywodraethu i ystyried cymwysterau na phrofiad unigolyn ar gyfer rôl statudol newydd bwysig cydlynwyr ADY. At hyn, ni fyddai gan gydlynydd ADY a ddynodir gan gorff llywodraethu unrhyw swyddogaethau wedi'u pennu'n gyfreithiol fel gofynion y rôl. Gallai canllawiau a chyngor helpu i gefnogi cyrff llywodraethu a chydlynwyr ADY, i ryw raddau, i gyflawni'r amcanion hyn.

2) *"Gwneud y ddeddfwriaeth*" – Yr ail opsiwn yw defnyddio'r pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau o dan adran 60(4) o Ddeddf 2018. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol, felly, i gyrff llywodraethu, y mae'n rhaid iddynt ddynodi cydlynwyr ADY (adran 60(2) o Ddeddf 2018), sicrhau bod gan gydlynwyr ADY gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau). Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod gan gydlynwyr ADY sy'n gyfrifol am gydlynu DDdY ar gyfer y rheini sydd ag ADY swyddogaethau clir. Gellir ategu hyn ymhellach drwy gyngor a chanllawiau.

## 6. Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gweithredu heb ddeddfwriaeth

Costau

Ni fyddai unrhyw gostau uniongyrchol yn sgil peidio â rhagnodi'n gyfreithiol ofynion ar gyrff llywodraethu i ystyried cymwysterau a/neu brofiad, a rhagnodi swyddogaethau cydlynwyr ADY.

Manteision

Mae yna rai manteision i opsiwn un. Gellid dadlau y byddai peidio â rhagnodi'r cymwysterau a'r profiad sydd ei angen i fod yn gydlynydd ADY yn caniatáu hyblygrwydd i gyrff llywodraethu wrth ddynodi'r rôl. Byddai yna fuddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth ac mewn hyfforddi a datblygu cydlynwyr ADY. At hyn, byddai cyngor ar gael drwy'r Cod ADY i gyrff llywodraethu a chydlynwyr ADY ynghylch eu rolau o ran dynodi cydlynydd ADY ar y naill law, a disgwyliadau'r rôl ar y llall.

Anfanteision

Gallai gweithredu heb ddeddfwriaeth arwain at yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn perthynas â rôl anstatudol cydlynwyr AAA, lle mae yna anghysondeb o ran dynodi'r rôl ac o ran cydlynu darpariaeth addysg addas ar gyfer y rheini sydd ag anawsterau dysgu. Nodwyd yr anghysondeb hwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2018. Gallai hyn gael effaith negyddol, felly, ar rai dysgwyr sydd ag ADY na fyddai eu DDdY yn cael ei chydlynu'n gyson ac i safon uchel yn unol â'u cyfoedion sydd ag ADY.

### Opsiwn 2 – Gwneud y ddeddfwriaeth

Costau

Byddai yna gostau bychain yn sgil dynodi cydlynydd ADY. Byddai'r corff llywodraethu, gan gydweithio'n agos â phennaeth y lleoliad addysg, mewn sefyllfa dda i nodi unigolion sydd naill ai eisoes yn gweithio yn y lleoliad neu sy'n newydd i'r lleoliad, a fyddai'n addas i ymgymryd â'r rôl hon. Mewn llawer o achosion, y cydlynydd AAA presennol sy'n debygol o gael ei ddynodi'n gydlynydd ADY.

Yn gyffredinol, ystyrir bod y tasgau a amlinellir yn y Rheoliadau Drafft Cydlynydd ADY yn debyg i'r rheini y mae cydlynwyr AAA da eisoes yn ymgymryd â nhw. Mae adborth yr ymgynghoriad yn ategu hyn.

Nid oes modd mesur cost yr amser fyddai'n ofynnol i ymgymryd â'r tasgau a amlinellir yn y Rheoliadau. Y rheswm am hyn yw y bydd y tasgau yn cael eu cyflawni mewn ffyrdd amrywiol ac yn dibynnu ar nifer o ffactorau o fewn y lleoliad

addysg neu'r clwstwr, gan gynnwys nifer y dysgwyr sydd ag ADY a difrifoldeb anghenion y garfan. Mae hyn yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2018, a oedd yn nodi nad yw cyfran yr amser y mae cydlynydd AAA yn ei dreulio yn ymgymryd â'i ddyletswyddau addysgu mewn perthynas â rôl cydlynydd AAA yn hysbys. Ychwanegodd, felly, nad oedd modd asesu union gost ymgymryd â thasgau cydlynydd AAA fel rhan o gyfanswm costau cyflog.

Mae'r Rheoliadau Cydlynydd ADY yn ei gwneud yn glir bod y cydlynydd ADY yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau gofynnol neu am sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Bydd y bennod ar rôl y cydlynydd ADY yn y Cod ADY yn darparu cyngor a chanllawiau ar rôl y cydlynydd ADY o fewn ei leoliad, a'r disgwyliadau o ran y gefnogaeth y dylai'r cydlynydd ADY allu gofyn amdani a'i chael, er mwyn ymgymryd â'i rôl yn effeithiol.

Pan oedd Deddf 2018 yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol, y bwriad polisi oedd bod cydlynwyr ADY yn ennill cymhwyster penodol lefel meistr a fyddai'n darparu'r hyfforddiant angenrheidiol ar eu cyfer i'w helpu i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl yn effeithiol. Fodd bynnag, cydnabu Llywodraeth Cymru y risg a oedd ynghlwm wrth hynny o ran y niferoedd a fyddai'n ymateb ac o ran cost. Disgwylid cyfanswm costau o £9,255,320 i wella sgiliau cydlynwyr ADY drwy'r rhaglen feistr. Ar sail yr adborth, aseswyd y gallai'r amser a'r ymrwymiad sydd ynghlwm wrth ymgymryd â chymhwyster meistr effeithio ar y niferoedd a fyddai'n ymateb. O ystyried y dystiolaeth, credwn y gallai hyn fod yn rhwystr i wneud cais am y rôl, yn hytrach nag yn ysgogiad i ddenu a chadw ymgeiswyr teilwng.

Mae Llywodraeth Cymru, felly, wedi mabwysiadu syniad newydd ar gyfer hyfforddi a datblygu cydlynwyr ADY fel rhan o Raglen Dysgu Proffesiynol Genedlaethol ADY. Bydd y rhaglen, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yn cefnogi ymarferwyr i weithredu'r newid hwn yn y ffordd y byddwn yn cefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Mae'r rhaglen ddysgu ar gael ar gyfer:

- Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig presennol, a fydd yn dod yn gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- unigolion sydd am fod yn gydlynwyr ADY; ac
- athrawon a darlithwyr coleg sydd â diddordeb.

Bydd y rhaglen hon yn targedu'r dysgu, gan sicrhau bod hyfforddiant wedi'i deilwra, yn amserol ac yn berthnasol i'r unigolyn, gan adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddo eisoes.

Defnyddir cyfran sylweddol o gyllid y Rhaglen Trawsnewid ADY gwerth £20m i gefnogi gweithgaredd i uwchsgilio'r gweithlu i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn well. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer cydlynwyr ADY, a fydd yn darparu rôl arweinyddiaeth strategol ac yn fan galw cyntaf am gyngor ac arweiniad proffesiynol. Mae gwaith ar y gweill i bennu faint o arian a fydd ar gael i gefnogi cydlynwyr ADY i ymgymryd â'r hyfforddiant, i bennu'r mecanwaith ar gyfer ariannu'r hyfforddiant, ac i ystyried pa agweddau y bydd y cyllid yn eu cynnwys.

Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf yn amlinellu’r costau hynny y gellir eu nodi mewn perthynas â chostau cyflog y cydlynydd ADY. I sicrhau eglurder, rydym wedi diwygio’r costau hyn isod a’u diweddaru i adlewyrchu chwyddiant. Dylid priodoli’r costau hyn i ofynion y Ddeddf; nid costau ychwanegol yn sgil y Rheoliadau hyn ydynt.

Nid yw’r Rheoliadau Cydlynydd ADY yn rheoli sawl cydlynydd ADY fydd yna o fewn y system ADY newydd. Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff llywodraethu ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod yn gyfrifol am gydlynu DDdY. Nid yw’n ei gwneud yn ofynnol i’r person fod yn rhywun sydd eisoes yn cael ei gyflogi gan y lleoliad addysg. Mae’r Rheoliadau Cydlynydd ADY yn nodi’n benodol bod yn rhaid i gydlynydd ADY mewn ysgol fod naill ai’n athro cymwysedig neu’n gydlynydd AAA yn yr ysgol yn union cyn i’r Rheoliadau ddod i rym. Yn achos athrawon cymwysedig, ni fyddai hyn o reidrwydd yn golygu athro a gyflogir gan yr ysgol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd cydlynydd AAA yn rhan o glwstwr o ysgolion. Yn yr un modd, efallai y bydd lleoliadau mwy o faint, megis sefydliadau addysg bellach, yn penderfynu cyflogi mwy nag un cydlynydd ADY.

At ddibenion amcangyfrif y costau, felly, defnyddiwyd y ffigur cyfartalog o un cydlynydd ADY ar gyfer pob lleoliad. Ar sail un cydlynydd ADY ym mhob lleoliad addysg, bydd cyfanswm o 1,515 o gydlynwyr ADY yn y system – 1,480 mewn ysgolion, 22 mewn unedau cyfeirio disgyblion ac 13 mewn sefydliadau addysg bellach.

Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2018 fod rôl cydlynwyr AAA wedi’i rhoi ar waith mewn amrywiol ffyrdd mewn ysgolion, a bod yr unigolion a ddynodwyd i’w chyflawni yn amrywio o gynorthwywyr addysgu lefel uwch i ddirprwy benaethiaid. Serch hynny, gwyddom fod gan y mwyafrif helaeth gymhwyster athro. Nid oedd modd nodi’r union gostau cyflog cenedlaethol, felly. Mae’r sefyllfa yr un fath hyd heddiw.

At ddibenion amcangyfrif costau cydlynydd ADY mewn ysgol, felly, defnyddiwyd pwynt canol cyflogau athrawon dosbarth. Ar gyfer 2020 tan fis Awst 2021, y pwynt cyflog perthnasol yw £33,912 (£44,086 gan gynnwys argostau).

Er nad yw’r Rheoliadau hyn yn darparu sail uniongyrchol i’r lwfansau a delir i gydlynydd AAA neu gydlynydd ADY i’r dyfodol, mae lwfans AAA ar gael i rai am ymgymryd â chyfrifoldebau AAA. Lle bo’n briodol, mae’r rheoliadau ar gyflogau athrawon yn darparu ar gyfer lwfans blynyddol ychwanegol o rhwng £2,270 a £4,479 am gyfrifoldebau AAA (o fewn meini prawf penodol). O dan y system ADY newydd, bydd hyn yn weithredol, er y bydd angen trafod unrhyw newidiadau i gyflogau athrawon, gan gynnwys lwfansau AAA, fel rhan o’r broses flynyddol o adolygu cyflogau athrawon.

Yn yr un modd, er bod y costau hyn wedi’u cynnwys yn y llinell sylfaen a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf, ac nad ydynt yn gostau ychwanegol yn sgil y Rheoliadau hyn, rydym wedi nodi a diweddaru gwybodaeth ynghylch y canlynol. Yn wahanol i ysgolion, ni fyddai gan unedau cyfeirio disgyblion gydlynydd AAA dynodedig fel rheol. Fodd bynnag, bydd yna rôl gydlynu yn cael

ei chyflawni. At ddibenion enghreifftiol, rhagdybir bod y rôl yn cael ei chyflawni gan aelod o'r staff sy'n addysgu, a gyflogir ar gyflog o £44,086 y flwyddyn (gan gynnwys argostau) a bod pob cydlynydd AAA yn cael lwfans AAA o £3,375 ar gyfartaledd.

Yn olaf, mewn sefydliadau addysg bellach, ar hyn o bryd mae gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn darparu ar gyfer cydlynydd y mae ei rôl yn ddigon tebyg i rôl cydlynydd AAA mewn ysgolion. Fel rheol, aelod o'r staff sy'n addysgu neu aelod o'r gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r rôl hon. Rhagdybir y bydd yr unigolyn ar gyflog tebyg i gydlynydd AAA mewn ysgol, sef £44,086 y flwyddyn (gan gynnwys argostau), ar sail cyfradd gyflogau 2019/20. Nid yw staff addysgu yn cael lwfansau ychwanegol fel mewn ysgolion. I'r rheini sydd â rôl cydlynydd AAA neu rôl gyfatebol mewn sefydliad addysg bellach, mae hyn yn debygol o fod yn rhan o strwythur cyflog ffurfiol y contract cyffredin.

<u>Manteision</u>

Byddai'r Rheoliadau Cydlynydd ADY yn help i sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru wrth ddynodi cydlynwyr ADY ac wrth gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer y rheini sydd ag anawsterau dysgu.

Mae'r Rheoliadau Cydlynydd ADY yn amlinellu'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r bwriad polisi i greu rôl strategol a fydd yn help i feithrin dull gweithredu ar lefel ysgol/coleg cyfan mewn perthynas ag ADY. Bydd tasgau eraill yn help i gynyddu ymwybyddiaeth o ADY a gwybodaeth am y maes ymhlith staff, a fydd yn help i godi'r safonau o fewn y gweithlu addysg, o ran darparu cymorth i bob dysgwr sydd ag ADY, gan arwain at well darpariaeth addysg a gwell canlyniadau i'r dysgwyr hynny.

Bydd y pecyn hyfforddi a datblygu a fydd ar gael i gydlynwyr ADY yn help iddynt gyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y Rheoliadau a'r canllawiau ategol yn effeithiol, gan gynnwys hyfforddi a chefnogi staff eraill.

Ar sail y dadansoddiad uchod o'r system bresennol a'r wybodaeth sydd ar gael inni, rydym wedi penderfynu y bydd manteision hirdymor y rôl hon, fel yr amlinellir yn y Rheoliadau hyn, yn gwneud iawn am y costau.

<u>Anfanteision</u>

Ni nodwyd unrhyw anfanteision i'r opsiwn hwn.

## 7. Ymgynghori

Ymgynghorwyd ar y Rheoliadau Drafft Cydlynydd ADY dros gyfnod o 14 wythnos o 10 Rhagfyr 2018 i 22 Mawrth 2019 fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar y Cod ADY drafft. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion yn ddiweddarach yn 2019, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 55 a 56 o'r ddogfen ymgynghori, a oedd yn ymwneud â dwy brif ddarpariaeth y Rheoliadau Cydlynydd ADY, fel yr amlinellir yn adran 60(4)(a) ac adran 60(4)(b) y Ddeddf.

Roedd y rhan fwyaf a gyfrannodd at y broses ymgynghori yn cytuno bod y cymwysterau rhagnodedig i fod yn gydlynydd ADY a amlinellir yn y Rheoliadau Drafft Cydlynydd ADY yn briodol. Awgrymodd rhai, serch hynny, oherwydd elfen strategol y rôl, y dylai pob cydlynydd ADY fod yn athro cymwysedig, ond awgrymodd eraill y dylid rhoi pwyslais mwy ar brofiad wrth ystyried pwy sy'n addas ar gyfer y rôl. Pwysleisiodd llawer bwysigrwydd hyfforddiant priodol hefyd a datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â phrofiad blaenorol a symud ymlaen yn y rôl.

O ran y tasgau a amlinellir yn y Rheoliadau Drafft Cydlynydd ADY, roedd y mwyafrif a gyfrannodd at yr ymgynghoriad yn cytuno â'r tasgau y dylid eu cyflawni gan gydlynwyr ADY neu y dylent drefnu i'w cyflawni. Fodd bynnag, cafwyd adborth yn mynegi peth pryder ynghylch dehongli ystyr amser digonol (fel y nodir yn y Cod ADY drafft) i gydlynwyr ADY gyflawni'r tasgau a bennir gan y gyfraith, a risgiau rhoi pwysau gormodol ar y rheini a ddynodir yn gydlynwyr ADY.

Er bod cytundeb cyffredinol i'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cydlynydd ADY, rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a ph'un a oes modd diwygio'r Rheoliadau i adlewyrchu'r adborth a ddaeth i law. Penderfynwyd nad oes angen diwygio'r Rheoliadau Cydlynydd ADY mewn perthynas â'r materion a godwyd, naill ai am eu bod y tu hwnt i gwmpas pwerau'r Rheoliadau neu am mai drwy gyfrwng y Cod ADY ac elfennau eraill o'r agenda i drawsnewid y system ADY y byddai'n fwyaf priodol mynd i'r afael â nhw.

Rydym felly wedi cryfhau'r bennod yn y Cod ADY statudol ar rôl y cydlynydd ADY i sicrhau eglurder ar y mater a godwyd, gan gynnwys ystyriaethau ynghylch darparu amser digonol i ymgymryd â gofynion y rôl statudol. At hyn, bydd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn hyfforddiant a datblygiad cydlynwyr ADY yn sicrhau bod yr unigolion hyn – boed yn gydlynwyr AAA ar hyn o bryd neu'n dymuno bod yn gydlynwyr ADY – yn abl i fodloni gofynion y gyfraith.

Lle gwnaed newidiadau i'r Rheoliadau Drafft Cydlynydd ADY, mae'r rhain yn bennaf i strwythur y Rheoliadau, yn benodol mewn perthynas â'r tasgau a ragnodir ar gyfer cydlynwyr ADY. Gwnaed mân-newidiadau i sicrhau eglurder ynghylch y rheoliadau (5(i) a 6(i) yn flaenorol) i osgoi camddehongli pwy sy'n gyfrifol am ymgymryd â thasgau penodol. Yn yr un modd, gwnaed mân newidiadau i reoliadau 5 (c) a 6 (c) i ddarparu eglurder ar ba agweddau ar gadw cofnodion y mae'n rhaid i'r cydlynwyr ADY ymgymryd â nhw. At hyn, dilëwyd rheoliadau (5(f) a 6(f) yn flaenorol) ynghylch paratoi ac adolygu gwybodaeth y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei chyhoeddi yn unol â'r cod, a rheoliadau (5(d) a 6(d) yn flaenorol) yn ymwneud â chysylltu â'r unigolyn a darparu gwybodaeth iddo (ac yn achos disgybl, ei riant) am ei ADY, IDP a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu gwneud. Gwnaed y newidiadau hyn yn sgil newidiadau i'r cod.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

Ni chwblhawyd ffiltr cystadleuaeth gan nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/na'r sector gwirfoddol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad ôl-weithredol o’r system ADY newydd (gan gynnwys gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau Cydlynydd ADY) a fydd yn rhan o fodel monitro a gwerthuso cyffredinol Llywodraeth Cymru, a bydd yn ystyried yr hyn a wneir fesul cam, yn benodol:

- parodrwydd – i asesu i ba raddau y mae’r gweithredwyr yn barod ar gyfer y newidiadau;
- cydymffurfio – i fonitro pa mor effeithiol y mae sefydliadau yn dilyn y gofynion deddfwriaethol newydd unwaith y byddant yn weithredol; ac
- effaith – i werthuso i ba raddau y mae’r newidiadau deddfwriaethol a’r newidiadau polisi ehangach yn cael eu sefydlu ac yn effeithio ar y canlyniadau i ddysgwyr.

Caiff y broses hon sy’n rhoi sylw i gydymffurfio, monitro effaith a gwerthuso ei hategu ymhellach gan drefniadau arolygu ac adolygu dan arweiniad Estyn.